**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**$9^{fed}$ RHAGFYR 2015**

**EITEM RHIF**

# ADRODDIAD GAN BENNAETH YR ADRAN CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## ADRODDIAD I GEISIO PENDERFYNIAD YNGLŶN Â'R AMODAU SYDD I'W GOSOD AR GANIATÂD CYNLLUNIO 07/2015/0414/PFT

## Codi un tyrbin gwynt, ag uchder tŵr tyrbin o 30.5m (48.01m i flaen y llafn), blwch rheoli a gwaith cysylltiol

## Tyfos, Llandrillo, Corwen

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad yn ceisio penderfyniad gan yr Aelodau ynglŷn â'r amodau sydd i'w gosod ar y caniatâd cynllunio i godi un tyrbin gwynt yn Tyfos, a roddwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2015.

### 2. CEFNDIR

2.1. Daw'r mater gerbron yr Aelodau ar gais Pwyllgor mis Tachwedd, gan fod y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio wedi mynd yn groes i argymhelliad y Swyddog Cynllunio, ac nid oedd amodau gerbron yr Aelodau i'w hystyried.

2.2. Ni yw rhinweddau'r penderfyniad i roi caniatâd yn destun trafodaeth, yn hytrach gofynnir am benderfyniad ynglŷn â pha mor addas neu beidio yw'r amodau sydd i'w gosod ar y caniatâd.

### 3. AMODAU A AWGRYMIR

3.1. Er gwybodaeth, mae adroddiad y Swyddog a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd a'r taflenni gwybodaeth hwyr ar gyfer y cyfarfod hwnnw ynghlwm â'r eitem hon. Mae'r prif adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i ddrafftio amodau penodol ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer yr amodau hynny.

3.2. Mae'r rhestr yn cynnwys amodau sy'n debyg i'r rheini a roddwyd ar geisiadau cynllunio diweddar eraill yn ymwneud â thyrbinau gwynt sengl yn y Sir, ond fe'u haddaswyd i amgylchiadau Tyfos ac ymatebion i'r ymgynghoriad. Maent yn ymdrin â materion fel y gwaith adeiladu, lleoliad ac edrychiad y tyrbin, sŵn ac amwynder, a'r trefniadau ar gyfer adfer y safle pan gaiff y tyrbin ei dynnu i lawr.

3.3. Yn dilyn penderfyniad y pwyllgor ym mis Tachwedd, derbyniwyd sylwadau ynglŷn â'r amodau sydd i'w gosod ar y cais. Derbyniwyd sylwadau gan:

Mr A. Jedwell, drwy ebost

Mrs. H. Madeley, Coed Moelfa, Cynwyd,
Sail y sylwadau yw –

(i) bod y tyrbin yn cael ei dynnu i lawr ar ôl ugain neu bum mlynedd ar hugain a bond yn cael ei osod ar y datblygwr er mwyn sicrhau bod yr adnoddau ar gael i wneud yn siŵr y caiff hyn ei wneud

(ii) os gwelir bod golau yn rhyng-gipio pan fydd golau cefndir uniongyrchol, dylid stopio'r tyrbin er mwyn lliniaru'r niwsans.

(iii) dylid amodi'r caniatâd yn unol â math a model y tyrbin arfaethedig

3.4. Gan roi ystyriaeth i'r sylwadau:

* Mae'r amodau a awgrymir yn cynnwys yr amod terfyn amser safonol sy'n ei gwneud yn ofynnol i dynnu'r tyrbin ar ôl 25 mlynedd (Rhif 2) ac amod datgomisiynu (Rhif 16). Ystyrir bod yr amod yn ddigonol i adfer y tir heb yr angen am fond a dyma'r dull o weithredu a fabwysiadwyd mewn mannau eraill mewn perthynas â datblygiadau tyrbinau sengl.

* Awgrymir gosod amod i fynd i'r afael ag effeithiau unrhyw gysgodion ysbeidiol a all ddod i'r amlwg wrth i'r tyrbin droi (Rhif 18).

* Mae Amod 2 yn nodi gwneuthuriad a model y tyrbin arfaethedig.

Mae'r Amodau a awgrymir fel a ganlyn:

**Cyfnod amser ar gyfer dechrau'r gwaith**

1. Rhaid i'r datblygiad a ganiateir trwy hyn ddechrau cyn pen 5 mlynedd ar ôl dyddiad y caniatâd hwn.

*Rheswm: Er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.*

**Rhestr o gynlluniau a dogfennau a gymeradwyir**

2. Oni bai y nodir hynny gan unrhyw amodau eraill sydd ynghlwm â'r caniatâd hwn, rhaid i'r datblygiad a ganiateir trwy hyn gael ei gwblhau yn gwbl unol â'r cynlluniau a dogfennau a ganlyn:
(i) Gweddlun Arfaethedig o'r Tyrbin, derbyniwyd 23 Ebrill 2015
(ii) Cynllun Parth Gweledig Damcaniaethol, derbyniwyd 23 Ebrill 2015
(iv) Cynllun o'r Safle, derbyniwyd 23 Ebrill 2015
(v) Cynllun o'r Lleoliad, derbyniwyd 23 Ebrill 2015
(vi) Cynllun Cysgodion ysbeidiol, dyddiedig 27/03/15, derbyniwyd 23 Ebrill 2015
(vii) Gwerthusiad Ecolegol – Mai 2015 Quants Environmental, derbyniwyd 19 Mai 2015
(viii) Cynllun rheoli'r traffig adeiladu – Ebrill 2015 Earthmill Ltd, derbyniwyd 28 Ebrill 2015
(ix) Asesiad o'r Effaith Gronnus (adar) - Awst 2015 Quants Environmental Ltd llwybr y Cebl
(x) Llun-osodiadau Cronnus ac Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Tirlun, derbyniwyd 29 Medi 2015
(xi) Adroddiad sŵn wedi'i ddiweddaru - Hayes McKenzie 28/09/15, derbyniwyd 29 Medi 2015
(xii) Cynllun llwybr y cebl wedi'i ddiwygio - Roger Parry and Partners, Lluniad rhif LP1 Dyddiedig Medi 2015.

*Rheswm : Er mwyn osgoi amheuaeth.*

**Hyd y caniatâd**

3. Bydd y caniatâd cynllunio yn ddilys am gyfnod o 25 mlynedd ar ôl y dyddiad cyntaf y bydd y tyrbin yn cynhyrchu trydan. Rhaid cyflwyno cadarnhâd ysgrifenedig o'r dyddiad cyntaf y bydd y datblygiad yn cynhyrchu trydan i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 1 mis calendar ar ôl y digwyddiad.

*Rheswm.* *Er mwyn osgoi amheuaeth ac er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth dros ddefnydd y tir yn y tymor hwy.*

**Mewn perthynas â'r tyrbin a'r datblygiad ategol**

4. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud â chodi generadur tyrbin gwynt â 3 llafn yn unig, Endurance X-35 225kW, yn unol â'r hyn a ddisgrifir yng nghynlluniau a lluniadau'r cais ag uchder tŵr tyrbin o 30.5m ac uchafswm uchder o 48.01m i flaen y llafn o lefel y tir gwreiddiol.

   *Rheswm.* *Er mwyn osgoi amheuaeth ac er budd amwynder gweledol.*

5. Rhaid lleoli'r tyrbin a'r lôn fynediad yn union yn y mannau a nodir ar y cynlluniau a gymeradwywyd, oni bai y ceir cytundeb ysgrifenedig yn wahanol i hyn gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

   *Rheswm:* *Er mwyn osgoi amheuaeth, er mwyn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gadw rheolaeth dros y datblygiad ac er budd amwynder preswyl a chadwraeth natur.*

6. AMOD CYN DECHRAU'R DATBLYGIAD
   Ni chaniateir codi'r tyrbin hyd nes y derbynnir caniatâd ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o ran y lliw a'r gorffeniad allanol.
   Rhaid cwblhau'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

   *Rheswm.* *Er budd amwynder gweledol.*

7. Ni chaniateir arddangos logos, symbolau nac arwyddion ar y tyrbin a ganiateir trwy hyn oni bai y rhoddir caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
   Rhaid cwblhau'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

   *Rheswm.* *Er budd amwynder gweledol.*

8. Rhaid gosod yr holl geblau trydan a rheoli rhwng y tyrbin a'r is-orsaf reoli o dan y ddaear, a rhaid i lwybr y cebl gerllaw adeiladau Tyfos fod yn unol â'r cynllun diwygiedig a dderbyniwyd gan Roger Parry and Partners, Lluniad rhif LP1 Dyddiedig Medi 2015, gan osgoi Cylch Cerrig Tyfos.

   *Rheswm.* *Er budd amwynder gweledol ac er mwyn sicrhau na fydd effaith andwyol o safbwynt archaeolegol.*

**Amodau o ran Sŵn**

9. Ni chaiff y sŵn o'r tyrbin a ganiateir trwy hyn fod uwchlaw'r lefelau a nodir yn y tabl isod yn yr anheddau a ganlyn pan gaiff ei fesur mewn amodau caeau agored ar gyflymder gwynt hyd at 10m/s ar uchder o 10m uwchlaw lefel y tir:

| **Annedd** | **Lefelau sŵn (dB LA90 ar 10 m/s ar uchder o 10m)** |
|---|---|
| Syrior | 25.6 |
| Tan-y-graig | 25.4 |
| Branas Lodge | 28.7 |
| Branas Isaf | 24.6 |
| Tyfos | 24.2 |
| 1 Bythynnod Tyfos | 23.1 |
| 2 Bythynnod Tyfos | 22.9 |
| Tyfos Isaf | 22.7 |
| Hafotty Wen | 23.4 |

*Rheswm. Er budd gwarchod amwynder preswylwyr yr eiddo preswyl yn yr ardal rhag sŵn cronnus y fferm wynt.*

10. Os bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn derbyn cwynion am niwsans sŵn, rhaid ysgrifennu at y datblygwr i roi gwybod iddo a rhaid i'r datblygwr gyflogi ymgynghorydd acwstig cymwys i gynnal asesiad sŵn cyn pen 1 mis ar ôl derbyn yr hysbysiad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag amod 9. Rhaid cyflwyno copi o'r adroddiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 14 diwrnod ar ôl ei gwblhau. Os na fydd yr Ymgeisydd yn cynnal asesiad sŵn cyn pen 1 mis ar ôl derbyn yr hysbysiad, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal asesiad sŵn annibynnol a rhaid i'r Ymgeisydd dalu costau'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

    *Rheswm. Er mwyn sicrhau bod mesurau digonol mewn lle i fonitro ac asesu sŵn o'r tyrbin os derbynnir cwynion ac er budd amwynder preswylwyr eiddo preswyl yn yr ardal.*

11. Os bydd y sŵn a ddaw o'r tyrbin yn uwch na'r cyfyngiadau sŵn a nodir yn amod 9 uchod, rhaid diffodd y tyrbin ac ni chaniateir i'r tyrbin ddechrau gweithio eto hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig i fesurau lliniaru a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth ag amod 9.
    Rhaid i'r mesurau lliniaru a gymeradwyir gael eu cwblhau cyn i'r tyrbin ailddechrau gweithio.

    *Rheswm. Er mwyn sicrhau bod mesurau digonol mewn lle i fonitro ac asesu sŵn o'r tyrbin os derbynnir cwynion, ac er budd amwynder preswylwyr yr eiddo preswyl yn yr ardal.*

12. Er mwyn hwyluso'r effaith gronnus ac ymchwiliadau i gwynion, rhaid i'r ymgeisydd ddiffodd y tyrbin dros dro (gosod brêc i atal y rotorau) er mwyn hwyluso ymchwiliadau i sŵn a gaiff eu cynnal mewn lleoliadau cyfagos, os derbynnir cais ysgrifenedig i wneud hynny gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

    *Rheswm. Er mwyn sicrhau bod mesurau digonol mewn lle i fonitro ac asesu sŵn o'r tyrbinau os derbynnir cwynion, ac er budd amwynder preswylwyr eiddo preswyl yn yr ardal.*

13. Rhaid cofnodi oriau gweithredu / cynhyrchu trydan y tyrbin a'u logio fel bod modd eu harchwilio, os derbynnir cais ysgrifenedig i wneud hynny gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

    *Rheswm. Er mwyn hwyluso ymchwiliadau yn dilyn cwynion am sŵn.*

**Datganiad o Ddull Adeiladu**

14. AMOD CYN DECHRAU'R DATBLYGIAD
    Ni chaiff unrhyw waith ddechrau cyn y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'n ysgrifenedig y datganiad o ddull adeiladu / rheoli traffig. Rhaid i'r datganiad gynnwys y manylion a ganlyn:
    i. Rheoli a storio tanwydd, olew, concrit a chemegolion.
    ii. Adeiladu ac adfer unrhyw ardal galed ar gyfer gosod craen.
    iii. Adeiladu ac adfer mynedfa'r safle a'r lôn fynedfa
    iv. Gwaith cloddio ac adfer wrth osod y ceblau
    v. Dull o gloddio ac adfer unrhyw bwll benthyg.
    vi. Rheoli a gwaredu dŵr daear, wyneb a budr
    vii. Gwaith cloddio a chodi sylfaen y tyrbin
    viii. Tynnu, storio a thaenu'r pridd
    ix. Cynigion ar gyfer rheoli a gweithio'r cerbydau adeiladu a llwybrau'r cerbydau adeiladu
    x. Lleoliad compownd y safle
    xi. Cynllun rheoli traffig
    xii. Oriau a dyddiau'r gwaith
    xiii. Manylion y fynedfa arfaethedig o'r briffordd
    Rhaid cwblhau'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

    *Rheswm. Er budd amwynder preswyl, diogelwch priffyrdd, atal a rheoli llygredd*

**Ecoleg**

15. AMOD CYN DECHRAU'R DATBLYGIAD.
Rhaid cwblhau'r datblygiad yn gwbl unol â'r argymhellion yn Adran 4.5 o'r Gwerthusiad Ecolegol gan Quants Environmental.

*Rheswm.* *Er mwyn gwarchod materion ecolegol.*

**Datgomisiynu**

16. Rhaid cyflwyno cynllun ar gyfer atgyweirio ac adfer y safle, gan gynnwys datgymalu a thynnu'r elfennau uwchlaw lefel y tir, a thynnu sylfeini'r tyrbin hyd at ddyfnder o 1.0m o leiaf islaw lefel y tir, gerbron yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w ystyried:
a. cyn pen 6 mis ar ôl i'r tyrbin a ganiateir trwy hyn roi'r gorau i weithio yn barhaol, neu
b. cyn pen 12 mis ar ôl i'r caniatâd hwn ddod i ben,
neu pha un bynnag ddaw gyntaf.
Rhaid rhoi unrhyw gynllun atgyweirio ac adfer a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar waith yn llawn :
a. cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad y bydd y tyrbin yn rhoi'r gorau i weithio
b. cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad y bydd y caniatâd cynllunio a roddir trwy hyn yn dod i ben.

*Rheswm.* *Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adfer yn y tymor hir, er budd amwynder gweledol.*

**Archaeoleg**

17. Rhaid i'r datblygwr sicrhau bod contractwr archaeolegol cymwys yn bresennol pan gaiff unrhyw waith ei wneud ar y tir yn ardal y datblygiad er mwyn cynnal briff gwylio archaeolegol. Rhaid i'r briff gwylio archaeolegol fodloni'r safonau a nodwyd yn Safonau a Chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ar gyfer briffiadau gwylio archaeolegol. Rhaid ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio Lleol, o leiaf bythefnos cyn dechrau'r gwaith ar y datblygiad, yn nodi enw'r archaeolegydd. Dylid cyflwyno copi o'r adroddiad a gaiff ei lunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Archaeolegydd Rheoli Datblygu, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (41 Stryd Lydan, Y Trallwng, Powys, SY21 7RR Ebost: markwalters@cpat.org.uk Rhif ffôn: 01938 553670). Ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, dylid hefyd anfon copi o'r adroddiad ac unrhyw archif gysylltiedig at y Swyddog Cofnodi'r Amgylchedd Hanesyddol, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys i'w cynnwys yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y diogelir unrhyw gofnod o olion archaeolegol a ddaw i'r golwg yn ystod y gwaith cloddio sydd ynghlwm â'r datblygiad a ganiatawyd.*

**Cysgodion symudol**

18. Os bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn derbyn cwynion cyfiawn am gysgodion symudol o unrhyw annedd anghysylltiedig sy'n bodoli'n gyfreithiol neu sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu ar ddyddiad rhoi'r caniatâd cynllunio hwn, rhaid ysgrifennu at y datblygwr a chyn pen un mis ar ôl dyddiad derbyn yr hysbysiad hwnnw gan yr Awdurdod bydd yn gyfrifol am gyflwyno manylion mesurau lliniaru i reoli, ailgyfeirio neu ddiffodd y tyrbin er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hynny sy'n achosi'r cysgodion symudol. Os bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo'r cynigion hyn yn ysgrifenedig, rhaid eu rhoi ar waith cyn pen un mis ar ôl rhoi'r gymeradwyaeth honno a rhaid cadw atynt bob amser wedi hynny. Os na fydd yr Awdurdod yn cymeradwyo'r manylion, yna rhaid i'r tyrbin roi'r gorau i weithio o'r dyddiad y bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod fod y manylion yn annerbyniol, hyd nes y cyflwynir manylion eraill i'r Awdurdod a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod, ac yna eu rhoi ar waith.

*Rheswm.* *Er budd amwynder preswylwyr yr eiddo a gaiff eu heffeithio.*

**NODIADAU I'R YMGEISYDD:**
Fe'ch cynghorir fod y Swyddog Llwybrau wedi cadarnhau fod Hawl Dramwy Gyhoeddus 12 (Cymuned Llandrillo) yn croesi cysylltiad y grid, ac felly mae angen cadw'r materion a ganlyn mewn cof:

Ni ddylid storio unrhyw ddeunyddiau adeiladu ar yr hawl dramwy, a all achosi niwsans, neu rwystr i'r defnyddiwr.

Ni ddylai lled y Llwybr troed gael ei gulhau yn sgil y datblygiad.

Ni ddylid gosod rhwystrau ychwanegol (e.e. gatiau) ar draws yr hawl dramwy, boed rheini'n rhai dros dro neu barhaol.

Os bydd angen cau'r Llwybr yn ystod y broses o gysylltu â'r grid, rhaid gwneud hyn drwy orchymyn cau dros dro ffurfiol, sydd yn costio £400 am 1-5 diwrnod a £1250 am orchmynion hyd at 6 mis. Sylwer bod angen cyfnod rhybudd o 6-8 wythnos yn achos y gorchymyn tymor hir ac 1-2 diwrnod ar gyfer y gorchymyn tymor byr. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Paul Owen o'r Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar 01824 706872.

Mae'r Swyddog Priffyrdd wedi gofyn am dynnu sylw'r ymgeisydd at y materion a ganlyn fel Nodiadau Ymgynghorol.

(i) Nodiadau Atodol Priffyrdd Rhifau 1, 2, 3, 4, 5 a 10.
(ii) Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991-Rhan N Ffurflen.

**4.** ARGYMHELLIAD
Bod yr Aelodau yn cytuno i osod yr amodau ar ganiatâd cynllunio 07/2015/0414 fel y cawsant eu drafftio neu ddiwygio gan y Pwyllgor, a bod Tystysgrif o Benderfyniad yn cael ei rhyddhau.

GRAHAM H.BOASE
PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD